# Rheoli gwaredu gwastraff anadweithiol i'r tir

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â gwaredu gwastraff anadweithiol ar y tir neu i'r tir. Mae'n cynnwys rheoli gweithrediadau a rheoli gwaith pob gweithgaredd sy'n berthynol i waredu gwastraff anadweithiol i'r tir. Mae hyn yn cynnwys atal gwastraff, cynnyrch a gweddillion anadweithiol rhag dianc, sicrhau bod gwastraff anadweithiol a waredwyd i'r tir yn ddiogel ac ymdrin â gwastraff anadweithiol sydd y tu hwnt i fanyleb, sy'n anodd ei drin, sy'n debygol o gynnwys deunyddiau wedi'u cuddio neu gydrannau annerbyniol, sy'n anawdurdodedig neu'n debygol o gyflwyno problemau iechyd annisgwyl. Rhaid i bob gweithdrefn gael ei gweithredu mewn cydymffurfiad â gofynion deddfwriaethol.

Mae'r Safon hon i reolwyr neu oruchwylwyr safleoedd tirlenwi gwastraff anadweithiol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithredu systemau a gweithdrefnau am weithrediadau gwaredu gwastraff anadweithiol yn unol â gofynion deddfwriaethol a sefydliadol
    1. trefnu cyflenwad digonol o’r deunyddiau, cyfarpar a gwybodaeth sy’n ofynnol i waredu gwastraff anadweithiol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion, rheoliadau, codau ymarfer ac arweiniad deddfwriaethol sy'n berthnasol i waredu gwastraff anadweithiol i'r tir ar y safle

2. y cofnodion sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth mewn perthynas â gwaredu gwastraff anadweithiol i'r tir
3. y gweithdrefnau a'r ddogfennaeth sy'n ofynnol i waredu gwastraff anadweithiol
4. caniatâd cynllunio, gofynion trwydded a system reoli amgylcheddol i'r safle
5. gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer gweithgareddau gwaredu
6. gweithdrefnau i reoli gweithgareddau gwaith ar safle gwastraff anadweithiol i'r tir
7. gweithdrefnau gweithredol i'r holl beiriannau, offer a chyfarpar a ddefnyddir ar y safle ar gyfer gwaredu gwastraff anadweithiol i'r tir
8. y technegau trin a thrafod â llaw a mecanyddol sy'n ofynnol i'r gwastraff anadweithiol sy'n cael ei waredu i'r tir ar y safle
9. sut mae rhoi cyfarwyddiadau gwaith i'r personél ar lafar ac yn ysgrifenedig
10. pwysigrwydd sicrhau dealltweriaeth pobl o gyfarwyddiadau a gweithdrefnau gwaith a sut mae cyflawni hyn
11. sut mae sicrhau bod gan y staff perthnasol y sgiliau gofynnol a beth i'w wneud mewn ymateb i ddiffyg sgiliau canfyddedig
12. polisi a gweithdrefnau amgylcheddol y sefydliad sy'n berthnasol i'r safle

13. peryglon sy'n gysylltiedig â gwaredu gwastraff anadweithiol i'r tir mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a'r amgylchedd
14. mesurau rheoli i leihau neu ddileu risgiau i ddiogelwch, iechyd a'r amgylchedd ar safleoedd gwastraff anadweithiol i'r tir
15. y mathau o gyfarpar diogelu personol sy'n ofynnol a sut mae'n rhaid ei ddefnyddio, ei gynnal a'i storio
16. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cofnodi ac adrodd am risgiau i iechyd, diogelwch a'r amgylchedd
17. gweithdrefnau gwirio gwastraff sy'n dod i mewn wrth y pwynt gwaredu
18. gweithdrefnau dyddiol ar y safle i ddiogelu gwastraff anadweithiol a waredir i'r tir
19. gweithdrefnau i ymdrin â gollyngiadau ac atal gwastraff anadweithiol a chynhyrchion gwaredu gwastraff anadweithiol i'r tir rhag dianc
20. gweithdrefnau sefydliadol am weithrediadau gwaredu a chyflenwi a defnyddio'r adnoddau sy'n ofynnol
21. gweithdrefnau a dogfennaeth sy'n ofynnol i waredu gwastraff anadweithiol i'r tir a'r gofynion monitro i'r safle
22. gweithdrefnau i ymdrin â gwastraff anadweithiol, deunyddiau y tu hwnt i fanyleb ac unrhyw beth arall a wrthodwyd o'r broses sy'n berthynol i wastraff anadweithiol gan gynnwys y rheini sy'n anodd eu trin a'u trafod, sy'n debygol o gynnwys deunyddiau wedi'u cuddio a chydrannau annerbyniol, sy'n anawdurdoedig, sy'n debygol o gyflwyno problemau iechyd annisgwyl
23. goblygiadau storio a thrin a thrafod ar gyfer y mathau o wastraff anadweithiol sy'n cael eu trin a'u trafod ar y safle
24. mathau, swyddogaethau a chyfyngiadau'r cyfarpar trin a thrafod gwastraff anadweithiol sydd

ar gael i’w defnyddio ar y safle
25. yr opsiynau a’r dulliau a ddefnyddir i ymdrin â niwsans adar, fermin, pryfed, sbwriel, aroglau, sŵn, a llwch
26. sut mae dehongli dogfennaeth broses a gwirio bod yr wybodaeth yn gywir ac yn berthynol i’r broses gwaredu gwastraff anadweithiol
27. materion a allai atal gwaredu gwastraff anadweithiol i’r tir gan gynnwys prinderau staff, diffygion cyfarpar, gollyngiadau, achosion allanol

Rheoli gwaredu gwastraff anadweithiol i'r tir

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Energy & Utility Skills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Energy & Utility Skills |
| **RCU gwreiddiol** | WM05 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gwasanaeth Cyhoeddus, Rheolwr Gwastraff |
| **Cyfres/Set** | Rheoli Gweithrediadau Adnoddau Gwastraff |
| **Geiriau Allweddol** | rheoli, safle, gweithrediadau, gwaredu, gwastraff, tirlenwi, cyfleustod, cyfleustodau, gwastraff, trin a thrafod, cyfarpar |